# YSGOL GYFUN GYMRAEG GLANTAF

## Canllaw Dysgu ac Addysgu
## Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Derbyniwyd :

Adolygwyd :

## 1. Rhagair

*‘Mae **addysgeg** wrth wraidd cwricwlwm. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion ystyried y dulliau addysgegol y bydd angen iddyn nhw eu defnyddio i gefnogi dysgwyr i wireddu'r pedwar diben. Dylai ysgolion geisio datblygu gweledigaeth gref o ddysgu ac addysgu sy'n ystyried 'pam' a 'sut' yn ogystal â 'beth’. (Llywodraeth Cymru, 2020)*

Cydnabyddir fel egwyddor sylfaenol mai’r dysgu a’r addysgu yw’r agwedd bwysicaf mewn ysgol sy’n graidd i ddatblygiad academaidd, emosiynol, ac ysbrydol pob disgybl. Pwrpas y ddogfen hon yw gosod canllawiau am ein hegwyddorion dysgu ac addysgu sydd yn herio, cefnogi ac ennyn diddordeb ein dysgwyr yng Nglantaf.

Mae dysgu ac addysgu effeithiol yn gyfrifol am godi safonau cyrhaeddiad disgyblion. Mae’r modd y mae disgyblion ac athrawon yn cydweithio â’i gilydd yn y broses o ‘ddysgu’ ac yn cynnal cyfleoedd cyfartal i bawb wireddu potensial yn sail i bob ysgol lwyddiannus.

Mae’r ysgol yn buddsoddi yn yr hyfforddiant a roddir i staff i gynnal gwersi o safon drwy hyfforddiant mewn swydd parhaus. Mae arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys adrannau'r ysgol, yn gyfrifol am ymchwilio, gwerthuso a mireinio’r strategaeth fel ei bod yn un gyfredol ac yn parhau i fod wedi’i seilio ar yr ymchwil bedagogaidd mwyaf diweddar.

Bydd holl gynllunio addysgeg wedi’i seilio ar annog dysgwyr i fodloni’r 4 diben o fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn gyfranwyr mentrus, creadigol, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus ac yn unigolion iach, hyderus, ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru.

**Nod ac amcanion y canllawiau hyn:**

1. sicrhau profiadau addysgu a dysgu o ansawdd uchel i ddysgwyr o bob gallu;
2. darparu fframwaith ar gyfer addysgu sydd yn cysoni dulliau ond sydd hefyd yn caniatau athrawon a disgyblion i fod yn greadigol;
3. codi cyrhaeddiad drwy: ennyn diddordeb disgyblion, cynyddu cymhelliant, hybu’r disgwyl i gyfrannu ac i fod yn ddysgwyr annibynnol;
4. myfyrio ar, a rhannu arferion da a rhagorol
5. darparu arweiniad ymarferol, gweithdrefnau clir a dealltwriaeth glir o addysgeg o safbwynt arweinwyr ac ymarferwyr sy’n addas i gyd-destun yr ysgol

## 2. Lleihau'r Bwlch *Sicrhau Tegwch a Chyfle i Bawb*

**Pam mae sicrhau rhagoriaeth mewn addysg mor bwysig?**

Mae'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau dysgwyr. Trwy wella ansawdd addysgu, mae modd gwella canlyniadau dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr difreintiedig. Mae ymchwil yn dangos bod addysg yn cyfrannu'n sylweddol tuag at lwyddiant pobl ifanc trwy ddarparu cyfleoedd iddynt gael symudedd cymdeithasol. *'Mae'r corff helaeth o ymchwil yn canfod mai addysgu da yw'r ffactor pwysicaf o ran gwella deilliannau myfyrwyr. Adolygiad o Dystiolaeth gan 'Evidence Based Education.'*

**Beth yw tegwch mewn addysg?**

*'Mae'r OECD yn diffinio tegwch mewn addysg fel un sydd â dau ddimensiwn. Y cyntaf yw tegwch, sy'n awgrymu na ddylai amgylchiadau personol a chymdeithasol – er enghraifft rhyw, statws economaidd-gymdeithasol neu darddiad ethnig – fod yn rhwystr i gyflawni potensial addysgol. Yr ail yw cynhwysiant, mewn geiriau eraill sicrhau safon sylfaenol o addysg i bawb – er enghraifft y dylai pawb allu darllen, ysgrifennu a gwneud rhifyddeg syml.' Organisation for Economic Cooperation and Development (OECD), Consortiwm Canolbarth y De, Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth (2021)*

**Gweledigaeth y Cwricwlwm i Gymru**

*'Rydym wedi ymrwymo i lwyddiant a lles pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir neu ei amgylchiadau personol. Mae tegwch a rhagoriaeth yn mynd law yn llaw, ac ni allwn gael un ar draul y llall.'*

*'Ni ddylai daearyddiaeth, amddifadedd na phrofiadau plentyndod atal dysgwyr rhag gwireddu eu potensial. Bydd ein dysgwyr yn gydnerth, yn ddychmygus, yn dosturiol ac yn uchelgeisiol – byddant yn anelu'n uchel ac yn cyflawni eu nodau. Er mwyn cyflawni hynny, bydd angen gweithlu addysg o safon uchel sy'n egniol a brwdfrydig ac sydd wedi ymrwymo i sicrhau dysgu parhaus i bawb.' (Llywodraeth Cymru, 2017)*

***Cwestiynau Allweddol***

- *Sut mae modd i ni ymateb i anghenion ein holl ddysgwyr a'u hanghenion amrywiol?*
- *Pa mor effeithiol ydym ni wrth greu amgylchedd yn ein hystafell ddosbarth lle mae pob dysgwr yn cyfrannu ac yn cael ei werthfawrogi?*
- *Ydyn ni'n deall yn llawn yr heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu dysgwyr unigol a grwpiau o ddysgwyr?*
- *Beth yw'r newidiadau y gellid eu gwneud a fyddai'n debygol o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n dysgwyr?*
- *Sut mae profiadau'r dysgwyr yn cael eu defnyddio i lywio ein ymarfer dysgu?*

## 3. Cyfrifoldebau

**Pwysigrwydd ein hathrawon**

Gellir disgrifio athro rhagorol fel arbenigwr sydd yn angerddol am ei (g)wybodaeth bynciol, sydd yn deall ***sut*** i addysgu a dysgu'r cynnwys; unigolyn sydd yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu; sydd yn rheoli'r ystafell ddosbarth er mwyn manteisio ar y cyfle i ddysgu, sydd yn cyflwyno ystod o gynnwys, gweithgareddau a chyfleoedd i ryngweithio er mwyn ysgogi meddyliau'r dysgwyr.

Mae pob athro yn gallu datblygu ei g/chrefft, a'i sgiliau yn y dosbarth os ydynt yn rhan o ddiwylliant proffesiynol sydd yn annog datblygiad ac yn hybu rhannu arfer da. Dyma sefydliad lle mae athrawon yn cymryd balchder yn eu gwaith. Fel addysgwyr rydym yn ddysgwyr gydol oes hefyd, yn barod i fagu meddylfryd o dwf trwy ddysgu yn dilyn methiannau er mwyn creu profiadau yn y dosbarth sydd yn fuddiol i ni fel addysgwyr ac i'n dysgwyr. Fel ysgol rydym yn buddsoddi yn ein hathrawon ac yn ymwrwymo i hyfforddi athrawon yn unol gyda gweledigaeth Wiliam, *'..... every teacher needs to improve, not because they are not good enough, but because they can be even better, …. there is such a thing as natural talent for teaching -* ***what matters far more is the improvement that teachers make...*** *' Dylan Wiliam, 2019*

**Tim Arwain**

Mae rôl y Tîm Arwain yn allweddol i gyfeiriad strategol datblygiadau mewn Dysgu ac Addysgu a gwerthuso effeithiau ar safonau a chanlyniadau. Dylai'r Tîm Arwain sicrhau eu bod yn cefnogi systemau hunanarfarnu'r ysgol sy'n gwerthuso effaith Dysgu ac Addysgu ar safonau drwy sicrhau bod hyfforddiant mewn swydd yn grymuso ac yn cefnogi staff. Yn dilyn arsylwadau gwersi, dylid rhoi adborth ysgrifenedig a llafar i aelodau unigol o staff ar feysydd cryfder a meysydd i'w datblygu o fewn 10 diwrnod. Dylai'r adborth hwn lywio cynnydd yr aelod o staff unigol tuag at ei amcanion rheoli perfformiad.

Dylai aelodau o'r Tîm Arwain, yn ystod eu cyfarfodydd cyswllt, sicrhau bod arweinwyr a staff yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu strategaethau a syniadau effeithiol. Dylai'r Tîm Arwain, lle bo angen, gysylltu ag asiantaethau allanol priodol i sicrhau bod yr ysgol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau Dysgu ac Addysgu a sicrhau bod y syniadau hyn yn cael eu cefnogi a'u gweithredu yn yr ysgol. Dylai'r Tîm Arwain gefnogi Cylch Monitro'r ysgol drwy sicrhau bod arweinwyr yn cwblhau'r strategaethau ar gamau priodol y cylch. Byddai hyn yn cynnwys adolygiadau llais y disgybl/llyfrau disgyblion ynghyd a phrosesau hunan arfarnu.

### Arweinwyr Pwnc

Mae rôl yr arweinwyr pwnc yn ganolog i symud Dysgu ac Addysgu ymlaen. Mae'n ofynnol iddynt ysgogi a chefnogi wrth annog staff o fewn eu hadran i fyfyrio ar effaith Dysgu ac Addysgu. Yn ystod cyfarfodydd adrannol mae gofyn i arweinwyr pwnc gefnogi ffocws ar Ddysgu ac Addysgu drwy annog diwylliant o rannu arfer da. Maent yn annog, gweithredu, monitro a gwerthuso technegau gwahanol o fewn awyrgylch diogel a chefnogol. Mewn cyfarfodydd cyswllt gyda'r Tîm Arwain mae disgwyl i arweinwyr pwnc rannu trafodaethau adrannol ar Ddysgu ac Addysgu a myfyrio ar dechnegau gyda'u rheolwr llinell. Yma gall y Tîm Arwain gynnig cyngor neu nodi meysydd cymorth pellach. Yn ystod

Teithiau Dysgu, disgwylir iddynt roi a rhannu cyngor ac arweiniad i athrawon o fewn yr adran ar sut i wella eu hymarfer gan bwysleisio’r egwyddorion hanfodol.

Yn eu cynllun gwella adran mae’n ofynnol i arweinwyr pwnc werthuso effaith Dysgu ac Addysgu ar safonau a chanlyniadau disgyblion. Yn dilyn hynny yn eu cynllun gwella adrannol dylid nodi unrhyw weithredu ymhellach o dechnegau Dysgu ac Addysgu posibl ar gyfer camau dilynol. Mae monitro adborth effeithiol a llais y disgybl yn rhan o broses hunan arfarnu’r ysgol a disgwylir i arweinwyr pwnc ymgymryd â monitro llyfrau a gwaith gan gynnwys sgyrsiau am waith yn rheolaidd ac yn unol â chalendr ysgol.

**Athrawon**

Mae’n ofynnol i athrawon fyfyrio, gwerthuso a gwella eu hymarfer eu hunain fel rhan o brosesau Rheoli Perfformiad. Mae amcanion Rheoli Perfformiad yn cysylltu â gwella perfformiad athrawon gyda gwell canlyniadau a safonau i ddisgyblion. Bydd arsylwadau gwersi yn digwydd fel y nodir yng nghalendr yr ysgol. Mae arsylwadau gwersi yn defnyddio dull safoni drwy ddefnyddio ffurflen arsylwi gwersi. Bydd arsylwadau gwersi yn cael eu cynnal gan fel rhan o'r broses Rheoli Perfformiad ac arfarnu ac yn cynnwys arweinwyr ar bobl lefel gan gynnwys aelodau o’r Tîm Arwain yn ystod teithiau dysgu. Mae’r ffurflen arsylwi gwers yn canolbwyntio ar yr egwyddorion hanfodol (siarad a gwrando; addysgu i’r brig; addysgu disgybl ganolog).

## 4. Amlinelliad o Ddysgu ac Addysgu

***Yr Egwyddorion Hanfodol***

i) Addysgu Disgybl Ganolog (Responsive Teaching)

ii) Siarad a gwrando (Oracy)

iii) Dysgu i'r brig (Teach to the top)

O fewn cymuned ddysgu Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf ein nod yw i bob dysgwr ymgysylltu'n llawn a'r broses ddysgu. Fel arweinwyr dysgu yn yr ystafell ddosbarth, rydym yn ymdrechu i ysgogi, cefnogi, cyfarwyddo ac asesu dysgwyr wrth iddynt symud ymlaen yn eu dysgu. Ein nod yw arfogi disgyblion gyda gwybodaeth a set o sgiliau, sy'n briodol i'w' hoedran a'u gallu i'w helpu i gyfathrebu a gweithredu'n gadarnhaol fel pobl ifanc. Mae ein ffocws ar bwysigrwydd yr egwyddorion hanfodol: addysgu disgybl ganolog, siarad a gwrando ac addysgu i'r brig, yn meithrin annibyniaeth yn i'n dysgwyr. Credwn fod ein model yn adlewyrchu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Fel ysgol, rydym yn cydnabod pwysigrwydd hunan arfarnu. Mae ein prosesau hunan arfarnu a'n cynlluniau gwella yn canolbwyntio ar brofiadau ein disgyblion. Rydym yn ail-werthuso ac yn newid dysgu er mwyn gwella effaith. Felly, nid yw ein canllawiau Dysgu ac Addysgu yn aros yr un peth, ond mae'n ddogfen fyw a fydd yn newid wrth i'r ysgol symud ymlaen ar hyd ei thaith dysgu ac addysgu.

**i) Addysgu Disgybl Ganolog (Responsive Teaching)**

Pwysleisia Addysgu Disgybl Ganolog yr angen i ymateb ac addasu yn ôl cynnydd dysgwyr, gan ddefnyddio strategaethau asesu ffurfiannol effeithiol parhaus. Mae'r weledigaeth hon i'w defnyddio trwy gydol y broses cynllunio, addysgu ac adborth, gyda'r nod o feithrin cynnydd ym mhob un o'n dysgwyr beth bynnag eu gallu.

***Mae addysgu disgybl ganolog yn ...***

1. ...sicrhau bod addysgeg yn effeithiol, er bod llawer o wybodaeth bynciol i'w chynnwys
2. ...galluogi athrawon i ganfod yr hyn y mae dysgwyr yn ei wybod ac yn gallu ei wneud ar unrhyw adeg
3. ...galluogi athrawon i addasu yn ôl yr hyn sy'n digwydd yn y dosbarth
4. ...galluogi athrawon i ddarparu adborth ffurfiannol effeithiol, gan ystyried llwyth gwaith athrawon.

**ii) Siarad a gwrando (Oracy)**

Mae'r gallu i siarad a gwrando gyda hyder a chywirdeb yn hanfodol ac wrth wraidd holl brofiadau dysgu. Dengys ymgyrch Voice 21, yn ogystal â thystiolaeth gan Brifysgol Caergrawnt fod dysgu trwy siarad yn cynnig manteision gwybyddol, lles, symudedd cymdeithasol yn ogystal â chodi hyder a hunan-barch disgyblion.

***Mae datblygu medrau siarad a gwrando...***

1.... yn cynyddu ymrwymiad pobl ifanc i'w dysgu. Mae dysgu yn dod yn fyw pan gaiff pobl ifanc y cyfle i leisio barn ac i fynegi eu profiadau eu hunain.

*2....* yn gwella deilliannau academaidd. Mae gwella medrau siarad a gwrando yn helpu datblygu pobl ifanc i allu meddwl yn feirniadol, gweithio'n gyd-ddibynnol a meddu ar eirfa i fynegi eu gwybodaeth a dealltwriaeth.

3. ...yn meithrin lles a hunan hyder. Mae datblygu'r gallu i siarad a gwrando gyda hyder yn grymuso pobl ifanc i feithrin perthnasoedd llwyddiannus ac i sylweddoli bod gan eu lleisiau werth.

*4. ...yn cefnogi cyflogadwyedd a llwyddiant mewn bywyd ôl-ysgol*. Mae datblygu siarad a gwrando yn helpu pobl ifanc i ffynnu mewn addysg bellach neu gyflogaeth.

5. ...yn annog symudedd a thegwch cymdeithasol. Yn arwain at gymdeithas decach lle mae pawb yn gallu llwyddo, beth bynnag eu cefndir.

**iii) Addysgu i'r Brig**

***Mae addysgu i'r brig...***

1. … yn golygu bod elfen o dasgau a gwaith anodd mewn gwersi er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn meddwl yn galed ac yn derbyn cyfleoedd i gael eu herio, beth bynnag eu gallu.

2. ... yn ymateb i'r dysgwyr wrth iddynt fynegi eu meddyliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

3. … yn datblygu meddylfryd o dwf yn ein dysgwyr drwy eu hannog i feddwl am strategaethau wrth ddatrys problemau

4. … yn gofyn am ddisgwyliadau uchel sydd yn herio disgyblion yn briodol pan ddaw at eu dysgu a'u hatgoffa y *gallan* nhw ddatblygu eu deallusrwydd.

5. ... yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'n arbenigwyr drwy sicrhau eu bod yn ymarfer, ail-ymweld ac adolygu deunydd gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

**Dysgu ac Addysgu Rhagorol**

Ein nod yw darparu profiadau addysgu i ddisgyblion lle:

- Mae cynllunio'n effeithiol, ennyn diddordeb disgyblion ac mae ganddo amcanion dysgu clir
- Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion
- Mae modelu a sgaffaldio yn arwain at annibynniaeth
- Mae athrawon eu hunain yn fodelau iaith da
- Mae athrawon yn ymdrechu'n barhaus i reoli ymddygiad disgyblion mewn fford gadarnhaol a diogel
- Mae staff cymorth dysgu yn cael eu defnyddio'n effeithiol
- Mae'r addysgu'n llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion, yn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth
- Mae gwybodaeth yr athro am bynciau yn dda ac yn gyfoes
- Mae gweithgareddau a dulliau amrywiol, sydd o ddiddordeb i ddisgyblion, yn creu cyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithredol y eu dysgu

**Dysgwyr Glantaf (Disgwyliadau)**

Ein nod yw darparu profiadau dysgu i ddisgyblion o fewn amgylchedd groesawgar, lle hyrwyddir agweddau positif tuag at waith. Disgwylir i ddisgyblion Glantaf:

- defnyddio eu lleisiau a'u Cymraeg i ddysgu
- gallu cydweithio gyda eraill yn effeithiol
- meddwl a myfyrio ar eu dysgu er mwyn deall sut i wella
- gwrando yn dda ar ddisgyblion eraill ac athrawon
- trafod eu gwaith a'u cynnydd gyda'u cyfoedion a'u hathrawon
- ymateb i gwestiynau
- bod yn chwilfrydig ac yn gofyn cwestiynau
- anelu'n uchel ac yn ymroi hyd eithaf eu gallu
- gofyn am gymorth er mwyn gwneud cynnydd
- dysgu o'u camgymeriadau

## 5. Ymchwil ac Ymholi

*'mae dysgu proffesiynol yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a phrofiadau a all gael dylanwad sylweddol ac ystyrlon ar ddatblygiad personol.' CGA, Adroddiad Ymchwil*

**Hyfforddiant Mewn Swydd**

Mae dysgu ac addysgu yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac felly ymrwymir i hyfforddi staff yn gyson er mwyn cynnal a chodi safonau dysgu ac addysgu. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ac mae rhaglen o arsylwadau ffurfiol ac anffufiol yn rhoi ffocws penodol i hyn. Cynhaliwyd sesiynau yn ystod HMS ar yr egwyddorion hanfodol ers Medi 2022 ac ma'n rhan allweddol o'r Cynllun Gwella Ysgol.

**Triawdau**

Yn flynyddol bydd cyfle i driawdau staff gydweithio i gynllunio, arsylwi a gwerthuso gwersi ar draws yr ysgol. Bydd strwythur y grwpiau yn amrywio rhwng rhai trawsgwricwlaidd neu fesul Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i athrawon fireinio eu crefft trwy rannu arferion da, yn ogystal â bod yn 'ffrind beirniadol' i eraill. Bydd canfyddiadau'r gweithgarwch yma'n cael eu coladu yn fewnol gan y Tîm Arwain, er mwyn helpu'r broses o adnabod cryfderau a meysydd datblygu ar draws ein tîm o staff.

**Rhaglen Addysgu Glantaf**

Dengys ymchwil mai'r ysgolion llwyddiannus sy'n gyson wella ydy'r rhai sy'n llwyddo i fagu diwylliant o gydweithio a rhannu arfer da. Mae'r rhaglen addysgu Glantaf yn agored i geisiadau ac yn derbyn 6 aelod o staff gwahanol pob blwyddyn. Mae'r grŵp, sy'n gweithio mewn ystod o adrannau a Meysydd Dysgu a Phrofiad, yn cwrdd bob dydd Mawrth er mwyn craffu ar ymchwil ac arbrofi gyda strategaethau arloesol. Maent yn cyfrannu at rannu arfer da. Mae hyn yn weithgarwch holl bwysig i ddatblygiad yr ysgol, a hefyd yn cynnig cyfleoedd i staff ddylanwadu ar strategaeth ysgol gyfan ynghyd a derbyn cyfleoedd datblygiad proffesiynol.

**Fforwm Dirprwyon**

Mae Glantaf yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda'n clwstwr o ysgolion cynradd wrth ddatblygu gweledigaeth gytûn ar gyfer y cwricwlwm ac addysgeg. Rydym yn cydnabod bod ein dysgwyr yn datblygu ar gontinwwm ac mae angen rhannu a gwerthfawrogi eu taith a'u profiadau, ynghyd â'n rhai ni fel ymarferwyr addysgiadol. Ffurfiodd y clwstwr weithgor o gynrychiolwyr profiadol er mwyn trafod profiadau dysgwyr, addysgeg, cwricwlwm a datblygiad staff. Mae'r gweithgor hwn yn trefnu prosiectau cydweithio rhannu arfer da ar draws y clwstwr yn ogystal â phrofiadau eang i'n dysgwyr a hyfforddiant staff. Rhan allweddol o waith y gweithgor yw trafod ymchwil a'i oblygiadau cyn gwneud penderfyniadau gwybodus a phennu blaenoriaethau ar gyfer ein dysgwyr a'n staff. Rydym wedi defnyddio ymchwil ac ymholi i adeiladu modelau o addysgu llefaredd ar draws y clwstwr, gan gynnwys gwaith Voice 21. Ar hyn o bryd, mae'r clwstwr yn datblygu modelau ar gyfer asesu ar gyfer dysgu yn ogystal â gweithio ar gynllunio y  o fewn y 6 MdaPh.

**Cyfeiriadau**


1. Dyfodol Llwyddiannus: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf
2. Canllawiau Estyn i Arolygwyr: Beth rydym yn ei arolygu: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021- 12/what%20we%20inspect_0.pdf
3. Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu Sefydliad Gwaddol Addysg: https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/teaching-learning-toolkit/feedback
4. Canllawiau Cwricwlwm i Gymru – y pedwar diben: https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/designingyour-curriculum/developing-a-vision-for-curriculum-design/#curriculum-design-and-the-four-purposes
5. Adroddiad arweiniad Adborth Athrawon i Wella Dysgu Disgyblion: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/eefguidance-reports/feedback/Teacher_Feedback_to_Improve_Pupil_Learning.pdf
6. Responsive Teaching – Harry Fletcher Wood
7. Transforming Teaching and Learning through Talk – Gaunt a Scott
8. The Learning Rainforest – Tom Sherrington
9. Full on Learning – Zoe Edler
10. The Curriculum: Gallimaufry to coherence – Mary Myatt
11. Slow Teaching: On finding calm, clarity and impact in the classroom – Jamie Thorn
12. Modelau Dysgu (Ffyrdd o Strwythuro Dysgu) (Consortiwm)
13. Modelau ar gyfer Addysgu.pptx (live.com)
14. Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth – Consortiwm Canolbarth y De
15. Pecyn Cymorth Addysgu Gwych, Adolygiad o Dystiolaeth Mehefin 2021– Evidence Based Education
16. Just Great Teaching – Ross Morrison Mc Gill
17. Retrieval Practice, Research and Resources for every classroom – Kate Jones
18. Rosenhine's Principals in Action – Tom Sherrington
19. Dual Coding with Teachers – Oliver Caviglioli
20. Making Every Lesson Count – Shaun Allison & Andy Tharby
21. Closing the Vocabulary Gap – Alex Quigley
22. CGA; Y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol: Adroddiad Ymchwil:  2019

**ATODIAD 1**